Y Pwyllgor Cynaliadwyedd

Adroddiad ar waith craffu'r pwyllgor ar Fesur Newid yn yr Hinsawdd y Deyrnas Unedig: y goblygiadau i Gymru

Cyflwyniad

1. Cyflwynwyd Mesur Newid yn yr Hinsawdd y Deyrnas Unedig i Dŷ'r Arglwyddi ar 14 Tachwedd 2007. Mae'r Mesur yn cynnig gosod nod gorfodol o ostyngiad rhwng 26 a 32 y cant mewn nwyon tŷ gwydr erbyn 2020, a gostyngiad o 60 y cant erbyn 2050. Mae'n cynnwys hefyd ddarpariaethau ar gyfer sefydlu system o gyllidebau carbon pum-mlynedd a chreu Pwyllgor ar Newid yn yr Hinsawdd i gynghori Llywodraeth y Deyrnas Unedig a gweinyddiaethau sydd wedi'u datganoli, yn ôl y gofyn, ynghylch agweddau ar newid yn yr hinsawdd. Bydd y Mesur hefyd yn galluogi sefydlu cynlluniau masnachu ym mhob un o wledydd y Deyrnas Unedig.

2. Mae'r Mesur yn cynnwys darpariaethau sydd yn effeithio ar Gymru'n uniongyrchol mewn nifer o ffyrdd:

- Rhaid ymgynghori â Gweinidogion Cymru ynghylch unrhyw newidiadau arfaethedig i gyllidebau carbon a gytunwyd neu mewn achosion lle mae polisïau'r Deyrnas Unedig yn effeithio ar bolisïau yng Nghymru;
- Pe gofynnir iddynt wneud felly, mae'n rhaid i'r Pwyllgor ar Newid yn yr Hinsawdd ddarparu gwybodaeth i Weinidogion Cymru am agweddau ar y newid yn yr hinsawdd,
- O dro i dro bydd gofyn i Weinidogion Cymru roi adroddiad ar y camau a gymerir gan Lywodraeth y Cynulliad i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd; a
- Rhaid i awdurdodau lleol Cymru roi sylw i adroddiad ar fesurau newid yn yr hinsawdd a gaiff ei ddrafftio gan Weinidogion Cymru.

3. Cytunodd y Pwyllgor Cynaliadwyedd i wahodd y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai i sesiwn dystiolaeth ar Fesur Newid yn yr Hinsawdd y Deyrnas Unedig er mwyn caniatáu i Aelodau ofyn am eglurhad ynghylch y goblygiadau i Gymru. Daeth Rheolwr Polisi o Dîm Mesur y Deyrnas Unedig ar Newid yn yr Hinsawdd hefyd i'r sesiwn dystiolaeth, a gynhaliwyd ddydd Iau 24 Ionawr 2008.

Materion a godwyd yn y dystiolaeth

4. Agorodd Rachel Solomon-Williams y sesiwn dystiolaeth drwy egluro prif amcanion Mesur Newid yn yr Hinsawdd y Deyrnas Unedig a'r darpariaethau sydd ynddo. Dywedodd y byddai diwygiadau'r Llywodraeth i'r Mesur yn caniatáu i Lywodraeth Cynulliad Cymru lunio canllawiau i'r awdurdodau lleol ar gyfaddasu ac i gyflwyno gweithdrefnau adrodd yn ôl ar gyfer yr awdurdodau lleol yn y maes hwn.

5. Yna, amlinellodd y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai oblygiadau'r Mesur i Gymru gan ddweud bod y trafodaethau cyson rhwng Llywodraeth y Deyrnas Unedig a Llywodraeth Cynulliad Cymru ar ddarpariaethau perthnasol i Gymru wedi bod yn gadarnhaol ac yn adeiladol.

6. Wrth gymryd tystiolaeth gan y Gweinidog, ceisiodd y pwyllgor eglurhad a manylion pellach ynglŷn â'r materion canlynol:

- Y gallu i orfodi sancsiynau o dan adolygiad barnwrol pe na chyflawnid y targedau ar gyfer gostwng allyriadau carbon sy'n orfodol yn gyfreithiol;
- Y rhesymeg a oedd yn sail i eithrio cludiant awyr a môr rhyngwladol o ddarpariaethau'r Mesur;
- Ymrwymiad i gyflwyno concordat ar sut y bydd Llywodraeth y Deyrnas Unedig a'r gweinyddiaethau datganoledig yn cydweithio i gyflawni'r targedau sydd yn y Mesur;
- Y rheswm dros osod y cyllidebau carbon fesul pum mlynedd, yn hytrach nag am gyfnodau llai;
- Defnyddio gostyngiad canrannol yn hytrach na gostyngiad yng nghyfanswm cronnus yr allyriadau;
- Digonolrwydd y targed o 60 y cant ar gyfer lleihau allyriadau carbon erbyn 2050, a derbyn bod tystiolaeth yn dechrau dod i'r amlwg mai targed o 80 y cant a fyddai'n angenrheidiol;
- Sefydlu cynlluniau marchnata gan unrhyw un o wledydd y Deyrnas Unedig;
- Y dulliau ymarferol o ddefnyddio 'pwerau penodol iddynt hefyd i brynu credydau offsetio'.

Argymhellion

7. Mae'r pwyllgor yn croesawu cyflwyno Mesur Newid yn yr Hinsawdd y Deyrnas Unedig ac yn cytuno'n gyffredinol â'r amcanion a'r darpariaethau sydd yn y Mesur. Mae'r pwyllgor hefyd yn croesawu agwedd adeiladol Llywodraeth y Deyrnas Unedig a Llywodraeth Cynulliad Cymru er mwyn sicrhau bod y Mesur yn adlewyrchu blaenoriaethau a buddiannau Cymru'n llawn.

Argymhelliad 1: Mae'r pwyllgor yn nodi nad yw'r Mesur yn cynnwys cludiant awyr na chludiant môr rhyngwladol ar hyn o bryd am na chytunwyd hyd yma ar fethodoleg ar gyfer mesur cludiant awyr a môr rhyngwladol. **Mae'r pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru'n gofyn i Lywodraeth y Deyrnas Unedig barhau i bwyso am ddatrys y mater hwn gyda'r Undeb Ewropeaidd ac eraill fel achos brys.**

Argymhelliad 2: Mae'r pwyllgor yn mynegi pryder bod y targed ar gyfer lleihau nwyon tŷ gwydr erbyn 2020 wedi'i osod ar ystod rhwng 26 a 32 y cant yn hytrach nag ar ffigwr benodol. **Cred y pwyllgor y byddai targed penodol yn sicrhau'r canlyniadau gorau posibl ac mae'n argymell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn annog Llywodraeth y Deyrnas Unedig i ddefnyddio targed penodol o 32 y cant.**

Argymhelliad 3: Mae'r pwyllgor yn croesawu ymrwymiad Llywodraeth y Deyrnas Unedig i ystyried cynyddu'r targed sydd yn y Mesur ar gyfer lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr erbyn 2050 o 60 i 80 y cant, os oes digon o dystiolaeth i gefnogi hyn. Mae'r pwyllgor yn nodi bod mwy o dystiolaeth gan y Tyndall Centre ac eraill na fydd 60 y cant yn ddigon i gyrraedd y trothwy o 2ºC. **Mae'r pwyllgor yn argymell felly y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru bwyso ar Lywodraeth y Deyrnas Unedig ynglŷn â'r mater hwn i sicrhau gosod targed priodol sy'n seiliedig ar y dystiolaeth.**

Argymhelliad 4: Er bod Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn disgrifio'r targedau fel rhai sy'n orfodol yn gyfreithiol, mae'r pwyllgor yn mynegi pryder ynglŷn â'r ffaith nad yw'r manylion o ran gorfodi'r targedau wedi'u cynnwys ar wyneb y Mesur, ac y byddai unrhyw sancsiynau'n ymddangos fel rhai a wnaed yn ôl disgresiwn y llysoedd pe ceid adolygiad barnwrol. **Mae'r pwyllgor felly'n argymell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn pwyso ar Lywodraeth y Deyrnas Unedig i roi mecanwaith gorfodi grymus ar waith er mwyn sicrhau bod y targedau'n cael eu bodloni.**

Mick Bates AC,
Cadeirydd, Y Pwyllgor Cynaliadwyedd